| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD: | **8 Gorffennaf 2010** |
| TEITL: | **DATGANIAD O GYFRIFON 2009/10** |
| PWRPAS / ARGYMHELLIAD: | **Derbyn y Datganiad o Gyfrifon statudol (drafft cyn archwiliad) er gwybodaeth** |
| AWDUR: | **Dafydd L Edwards, Pennaeth Cyllid** |
| ARWEINYDD PORTFFOLIO: | **Cynghorydd Dylan Edwards** |

---

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r Datganiad o Gyfrifon statudol ar gyfer blwyddyn ariannol 2009/10, sy'n rhoi manylion am weithgareddau ariannol y Cyngor yn ystod y flwyddyn ddaru ddiweddu ar 31 Mawrth 2010.

1.2 Y Datganiad o Gyfrifon drafft ar ei ffurf safonol yw'r ddogfen ddilynol, 84 tudalen o hyd, ac mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi'i gynnwys o fewn y Datganiad o Gyfrifon.

1.3 Nid yw'r cyfrifon drafft a gyflwynir yma wedi'u harchwilio eto, felly efallai bydd angen rhai newidiadau iddynt cyn cyflwynir fersiwn terfynol i gyfarfod 27 Medi 2010 o'r Pwyllgor Archwilio.

1.4 Mae ffurf a chynnwys sylfaenol y Datganiadau yma wedi'i orfodi o dan reoliad 7 o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005 ac adolygiadau i'r rheiny, yn ogystal â rheoliadau a safonau eraill. Gan fod y rheoliadau yn mynnu datganiadau ar ffurf safonol, mae cymariaethau gyda chyfrifon cyrff eraill wedi'u hwyluso, ond erbyn hyn mae'r datganiadau yn dechnegol gymhleth ac yn fwy anodd i'w ddeall.

1.5 Cyflwynwyd adroddiadau syml a chryno ynglŷn â chyfrifon 2009/10 i gyfarfod 15 Mehefin 2010 o Fwrdd y Cyngor. Roedd yr adroddiad hwnnw yn fwy defnyddiol i bwrpasau mewnol / rheoli, tra mae'r Datganiad o Gyfrifon yn fwy priodol ar gyfer pwrpasau allanol / llywodraethu.

## 2. GWEITHREDIAD ANGENRHEIDIOL

2.1 Y Pwyllgor Archwilio yw'r "rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu" ar ran y Cyngor, a bu'r pwyllgor yn cymeradwyo'r datganiad drafft o'r cyfrifon. Fodd bynnag, mae addasiadau 2010 i'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio yn rhoi'r cyfrifoldeb am gymeradwyo ac ardystio'r cyfrifon drafft cyn 30 Mehefin i'r Swyddog Cyllid Statudol (y Pennaeth Cyllid yn Cyngor Gwynedd).

2.2 Erbyn hyn, nid oes raid i aelodau etholedig gymeradwyo'r Datganiad o Gyfrifon y Cyngor (yn amodol ar archwiliad), ond y'i cyflwynir i'r Pwyllgor Archwilio ER GWYBODAETH.

2.3 Diau y bydd aelodau'r pwyllgor awydd ystyried a deall y cynnwys fel paratoad ar gyfer cymeradwyo'r fersiwn terfynol ym Medi, ac i arfogi ei hunain gyda'r wybodaeth ar gyfer ystyried materion a archwilir yn eu cyd-destun.

## 3. CAMAU DILYNOL

3.1 Ymhellach i ardystiad gan y Pennaeth Cyllid ac ystyriaeth gan y Pwyllgor Archwilio, bydd y Datganiad o Gyfrifon 2009/10, ynghyd â phob datganiad ariannol perthnasol arall, yn destun y broses archwilio blynyddol gan Swyddfa Archwilio Cymru.

3.2 Yn unol â rheoliadau 13 a 15 o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005, bydd y Cyngor hefyd yn hysbysu'r cyhoedd, drwy'r wasg leol, bod y cyfrifon ar gael i'w harolygu am gyfnod o 20 diwrnod. Fel rhan o'r broses archwilio, yn ystod y cyfnod o 03/08/10 tan 31/08/10, bydd gan etholwyr llywodraeth leol gyfle i holi'r archwiliwr allanol ynghylch cyfrifon y Cyngor.

3.3 Fel nodwyd ym mharagraff 1.3 (uchod), cyflwynir y fersiwn terfynol (wedi'i archwilio) o Ddatganiad o Gyfrifon y Cyngor i gyfarfod 27 Medi 2010 o'r Pwyllgor Archwilio AM GYMERADWYAETH, ynghyd ag adroddiad yr Archwilydd sydd wedi'i benodi gan Swyddfa Archwilio Cymru.

3.4 Bwriad y Gwasanaeth Cyllid yw dosbarthu copïau o'r Datganiad i holl aelodau etholedig a phrif swyddogion y Cyngor, yn ogystal ag eraill sydd â diddordeb.

## 4. ARGYMHELLIAD

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio dderbyn a nodi Datganiad o Gyfrifon y Cyngor (yn amodol ar archwiliad) 2009/10.